



**Adroddiad Cyfarfod**  
**10:01:24**  
**Rhian Cadwaladr**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf o 2024 gan ein llywydd Jen Roberts.

Cyfeiriodd at eitem Cécile Roberts ar ddiwyddiad Zoom Merched Y Wawr cyn y Nadolig. Roedd yn sôn am dyfu i fyny yn Bordeaux ac am Nadolig ei phlentyndod. Roedd dros 150 o aelodau wedi ymuno ar y noson ac mae 20,526 wedi edrych ar yr eitemau 'Cracyr Dolig' ar dudalen gweplyfr Merched Y Wawr yn barod! I'r rhai sydd wedi methu ei weld mae'r gangen wedi ei rannu ar ein cyfrif gweplyfr ein hunain.

Derbyniwyd y newyddion am farwolaeth Gwyneth Pierce, Llys y Gwynt gynt, fu'n aelod am nifer o flynyddoedd ac anfonwyd cydymdeimlad i'r teulu.

Mae'r ddau banel a grewyd gan Meira Evans, Mair Read a Rhian Hughes ar y thema Llwybrau, (a gafodd eu harddangos ym mhabell MYW yn yr Eisteddfod Genedlaethol), bellach i'w gweld ar wal y caffi cymunedol, Caffi'r Bedol.

Bydd y gangen yn mynd i Gaffi'r Bedol i ddathlu Gŵyl Dewi eleni a gofynwyd garedig i'r aelodau ddod â'r ffurflen yn ôl gyda arian parod i'n cyfarfod ar Chwefror 14.

Atgoffwyd yr aelodau am Ginio'r Llywydd Cenedlaethol, Geunor Roberts fydd yn cymryd lle yng Ngwesty Plas Isaf, Corwen ar Ddydd Sadwrn, 27 o Ebrill. Y gôst yw £27 a bydd angen yr enwau erbyn Ionawr 26.

Pleser mawr oedd croesawu Rhian Cadwaladr atom - merch sy'n enedigol o Lanberis ac sydd bellach yn byw yn Rhosgadfan. Adnabyddwn hi fel actores ar nifer o eitemau ar y teledu ac ar amryw o lwyfannau. Gwelir hi yn actio mewn cymeriad yn yr Amgueddfa Lechi yn Lanberis hefyd.

Mae Rhian erbyn hyn wedi cyhoeddi pedair nofel a mae hi'n enwog bellach am ei llyfrau coginio, ac am y risetiau sydd wedi bod ar y cyfryngau cymdeithasol, BBC Good Food ac yn y blaen.

Bu'n darllen rhannau allan o rai o'i nofelau ac roedd ei dawn actio yn dod â chymeriadau'r nofel yn fyw i ni gan ymdrin â bywyd bob dydd yn llawn hiwmor. Braff oedd clywed y neuadd yn llawn chwerthin.

Soniodd hefyd am y broses a ddigwyddai wrth iddi fynd ati i baratoi ar gyfer cyhoeddi ei llyfrau coginio – sydd â diwyg arbennig iawn iddynt.

Diolchwyd iddi gan Mair Price a themlai pawb yn y gynulleidfa eu bod wedi cael gwledd o noson.